# Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 7. Dod o hyd i arian a'i gael

## 7.4.14 Ariannu ar gyfer mannau addoli

### Cyflwyniad

Mae yna nifer o ymddiriedolaethau a sefydliadau sy'n darparu cymorth arian grant yn benodol ar gyfer mannau addoli megis adeiladau crefyddol.  Y prif arianwyr posib yw:

### Cronfa Deddf Eglwys Cymru

Mae hwn yn hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau elusennol mudiadau sy'n elwa cymunedau lleol, gan gynnwys unrhyw fannau addoli a chladdfeydd - adferiad a chynnal a chadw.  Ni nodir uchafswm neu leiafswm lefelau'r grant.

Ble bynnag ydynt ar gael, gweinyddir y grantiau gan yr awdurdod lleol.  Cysylltwch â'ch Cyngor Sirol Gwirfoddol lleol am fwy o wybodaeth.

### Sefydliad James Pantyfedwen

Mae yna leiafswm o £200 neu fyw yn ôl disgresiwn y Panel, a anelwyd at eglwysi a mudiadau elusennol.  Mae'r grantiau ar gyfer gwariant cyfalaf - nid oes ariannu refeniw o gwbl.

**Cysylltwch â:**
Sefydliad James Pantyfedwen,
9 Heol y Farchnad, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1DL
Ffôn: 01970 612 806
pantyfedwen@btinternet.com

### Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi Hanesyddol

Mae hwn yn ariannu atgyweirio ffabrig eglwysi (pob enwad Cristnogol dros 100 mlwydd oed), neu ehangiad yr ardal addoli neu adeiladu eglwysi newydd (Anglicanaidd yn unig).

Mae'r ymddiriedolaeth wedi datblygu dwy ffordd gwneud cais i roi cymorth i'r rhai sy'n ymgeisio:

- **Cyffredinol**  sydd ar gyfer gwaith atgyweirio strwythurol - y grantiau 'Cornerstone, Standard and Foundation'.

- **Cyfleusterau** sy'n delio gyda gwelliannau cyfleusterau a mynediad - y grantiau 'Facilities'.

Mae'n bwysig sicrhau fod eich prosiect yn gymwys drwy wirio'r meini prawf canlynol:

- Rhaid i bob adeilad eglwysig fod dros 100 mlwydd oed i gymhwyso ar gyfer grant. Fodd bynnag, gall eglwysi Anglicanaidd unrhyw oed sy'n eiddo i Eglwys Lloegr neu Eglwys Cymru wneud cais i'r Gymdeithas Adeiladau Eglwysig Ymgorfforedig sy'n gweithio ar y cyd gyda'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi Hanesyddol.
- Rhaid i bob eglwys fod yn agored i addoli cyhoeddus rheolaidd, bod yn Lloegr neu Gymru a pherthyn i enwad sydd ei hunan yn rhan o Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon.
- Rhaid goruchwylio pob prosiect gan bensaer a achredwyd gan ARB, RIBA neu AABC, neu gan syrfëwr siartredig a achredwyd gan RICS.
- Rhaid i'r gwaith gostio mwy na £4,000 cyn TAW a ffioedd.

**Byddwch yn ymwybodol nad all yr Ymddiriedolaeth roi grantiau ar gyfer rhai amcanion penodol, gan gynnwys:**

- Adeiladau sydd ddim yn rhan o'r eglwys (megis neuaddau eglwys a ficerdai)
- Atgyweirio clychau, cloc ac organ
- Atgyweirio dodrefn mewnol
- Ail-addurno, heblaw am ar ôl yr atgyweirio strwythurol
- Atgyweirio cofgolofnau
- Atgyweirio peintiadau wal

**Cysylltwch â:**
The Historic Churches Preservation Trust, 31 Newbury Street,
Llundain, EC1A 7HU
Ffôn:  020 7600 6090
Ffacs**:** 020 7796 2442
info@historicchurches.org.uk
www.historicchurches.org.uk

## Ymddiriedolaeth Pob Eglwys

Mae hwn yn darparu arian i gefnogi eglwysi, sefydliadau eglwysig, elusennau crefyddol, elusennau sy'n cadw treftadaeth y DU, colegau diwinyddol, ysgolion sy'n hyrwyddo crefydd Gristnogol, elusennau a noddwyd neu a gymeradwywyd gan yr eglwys, y gymuned leol a'r rhai hynny sy'n ymwneud â lles pobl dan anfantais ac anabl.

Ystod y grantiau yw £100 i £5,000.

**Cysylltwch â:**
Allchurches Trust Limited
Beaufort House, Brunswick Road, Gloucester, GL1 1JZ
Ffôn: 01452 528533
atl@eigmail.com
www.allchurches.co.uk

## Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

Mae hwn yn cefnogi prosiectau yng Nghymru sy'n darparu neu wella cyfleusterau cymunedol a chefnogi gweithgareddau cymunedol a anelir at adfywio cymuned.

Dylai cynigion am welliant fod rhwng £20,000 a £100,000 fel arfer.

**Cysylltwch â:**
Llywodraeth Cymru
Uned Adfywio, Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ
Ffôn: 029 2082 5111
Ffôn: 029 2082 6557
cfaphelp@wales.gsi.gov.uk
www.wales.gov.uk

## Clothworkers Foundation and Trusts'

Mae hwn yn grant unigol ar gyfer costau cyfalaf a roddir i elusennau cofrestredig y DU gyda throsiant blynyddol dan £10m.

Mae costau cyfalaf yn cynnwys:
- Prynu ac adnewyddu adeilad
- Cyfarpar (gan gynnwys caledwedd TG)
- Cerbydau
- Costau hyfforddiant a ffioedd proffesiynol parted prosiectau cyfalaf a ariennir gennym ni.

**Cysylltwch â:**
Clothworkers' Foundation and Trusts
Clothworkers' Hall, Dunster Court, Mincing Lane, Llundain  EC3R 7AH
Ffôn: 020 7623 7041
Ffacs: 020 7397 0107
foundation@clothworkers.co.uk
www.clothworkers.co.uk

## Ymddiriedolaeth Dulverton

Dyma ariannu ar gyfer prosiectau yn bennaf mewn cymunedau amddifad ym meysydd ieuenctid ac addysg; lles cyffredinol; cadwraeth a chrefydd, gyda diddordeb llai yn: heddwch a diogelwch; cadwedigaeth ac achosion teilyngdod arbennig.

Mae mwyafrif gwaith yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi elusennau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n gweithredu yn Lloegr, Yr Alban  a Chymru.  Anaml iawn y bydd yn gweithredu yn Llundain Fawr neu Ogledd Iwerddon.

Grantiau llai hyd at £2,000.  Grantiau mwy rhwng £5,000 a £25,000.

**Cysylltwch ag:**
Ymddiriedolaeth Dulverton, 5 St James's Place, Llundain  SW1A 1NP
Ffôn: 020 7629 9121
Ffacs: 020 7495 6201
trust@dulverton.org
www.dulverton.org

## Elusen Henry Smith

Rhoddir grantiau i: ysbytai a chartrefi meddygol, ymchwil meddygol, elusennau plant, canolfannau i'r henoed, elusennau i'r anabl, elusennau ar gyfer anabl y rhyfel a gweddwon.

Fel arfer mae'r grantiau yn rhai mawr, ar gyfartaledd o £60,000. Gellir cael grantiau llai dan £10,000.

**Cysylltwch ag:**
Elusen Henry Smith, Y Trysorydd / The Treasurer, Henry Smith Charity,
124 Chancery Lane, Llundain  EC4A 1BU
Ffôn: 020 7320 6884
Ffacs: 020 7320 3842
www.henrysmithcharity.org.uk

## Sefydliad Elusennol Bernard Sunley

Mae hwn ar gyfer prosiectau amrywiaeth eang o amcanion elusennol gan gynnwys: addysg; y celfyddydau; treftadaeth; ieuenctid; y gymuned; cadwraeth; tai; iechyd; ymchwil meddygol.
Fel arfer mae'r grantiau rhwng £200 a £5,000, ond gall yn eithriadol fod yn fwy.

**Cysylltwch â:**
Sefydliad Elusennol Bernard Sunley, 20 Berkley Square, Llundain W1J 6LH
Ffôn: 020 7408 2198
Ffacs: 020 7499 5859
office@sunleyfoundation.com

## Sefydliad Hedley

Darperir y grantiau yma ar gyfer prosiectau sy'n rhoi ffocws ar brif amcan y Sefydliad o gefnogi pobl ifanc (h.y. addysg, hyfforddiant, iechyd a lles) ac ar gyfer amcanion atodol o gyfarpar meddygol ar gyfer pobl anabl a phobl derfynol wael.

**Cysylltwch â:**
Sefydliad Hedley
The Appeals Secretary, 9 Dowgate Hill, Llundain EC4R 2SU
Ffôn: 020 7489 8076
www.hedleyfoundation.org.uk

## Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Mae'r grantiau yma ar gyfer prosiectau sy'n darparu adnoddau i gymunedau, y rhai sy'n cenhedlu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant drwy'r Farchnad Lafur Drosiannol a'r rhai sy'n cefnogi menter gymunedol, darparu cyngor lles neu gefnogi undebau credyd yng nghymunedau meysydd glo Prydain Fawr.

**Cysylltwch â:**
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
Silkstone House, Pioneer Close, Manvers Way
Wath upon Dearne, Rotherham  S63 7JZ
Ffôn: 0800 0648560
Ffacs: 01709 765599
info@coalfields-regen.org.uk
www.coalfields-regen.org.uk

## Sefydliad John Ellerman

Mae'r Sefydliad  yma yn dosbarthu tua £4 miliwn y flwyddyn i brosiectau o fewn y meysydd blaenoriaethol: iechyd ac anabledd, lles cymdeithasol, y celfyddydau, cadwraeth a thramor.

**Cysylltwch â:**
Sefydliad John Ellerman
The Appeals Manager
Aria House, 23 Craven Street
Llundain  WC2N 5NS
Ffôn: 020 7930 8566
Ffacs: 020 7839 3654
eileen@ellerman.org.uk
www.ellerman.org.uk

## Sefydliadau ac Ymddiriedolaethau Laing

Dyma ystod o weithgarwch elusennol gan gynnwys lles ieuenctid, gofal iechyd, digartrefedd, lles cyffredinol, cymorth i bobl anabl, crefydd, y celfyddydau a threftadaeth a chadwraeth.
Mae'r grantiau llai o £50 neu fwy.  Ni nodir yr uchafswm.

**Cysylltwch â:**
Sefydliadau ac Ymddiriedolaethau Laing
Laing Family Trusts, 33 Bunns Lane, Mill Hill, Llundain  NW7 2DX
Ffôn: 020 8238 8890

## Ymddiriedolaeth Elusennol Manifold

Mae hwn ar gyfer cadw gweithgareddau ac adeiladau sy'n ddiwylliannol bwysig yn y DU.  Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i achosion elusennol, gan ffafrio'r rhai sy'n ymwneud â chadwraeth.

Mae'r math o brosiectau yn cynnwys rhai addysgol, cadwraethol, y celfyddydau (yn enwedig cerddoriaeth), cadw adeiladau a chofgolofnau sydd o ddiddordeb pensaernïol, amgueddfeydd a galerïau, eglwysi a chapeli.

Mae'r grantiau fel arfer rhwng £500 a £5,000; gellir cael grantiau mwy hyd at £50,000 ar gyfer rhai prosiectau.

**Cysylltwch â:**
Ymddiriedolaeth Elusennol Manifold
Shottesbrooke House, Maidenhead  SL6 3SW
Ffôn: 01628 825660
Ffacs: 01628 820159

## CADW: Grantiau ar gyfer adeiladau hanesyddol

Gall unigolion neu fudiadau wneud cais am arian ar gyfer atgyweirio neu adnewyddu adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yng Nghymru.

**Cysylltwch â:**
Cadw
Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw
Caerdydd  CF15 7QQ
Ffôn: (01443) 336000
Ffacs: (01443) 336001
cadw@wales.gsi.gov.uk
www.cadw.wales.gov.uk

## Sefydliad Garfield Weston

Dyma arian ar gyfer prosiectau yn y DU ym meysydd cyffredinol: addysg; y celfyddydau; iechyd; yr amgylchedd; y gymuned; ieuenctid; crefydd; lles; meddygol a chymdeithasol.  Nid oes blaenoriaethau ar gyfer ariannu a chefnogir ystod eang o weithgarwch elusennol.

Sefydliad Garfield Weston
Weston Centre
10 Grosvenor Street
Llundain  W1K 4QY
Ffôn:  020 7399 6565
Ffacs: 020 7399 6580
www.garfieldweston.org

**Ymwadiad**
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.